PWYLLGOR PENODIADAU - CYFARWYDDWR GWASANAETHAU PLANT

DYDD IAU, 14 IONAWR 2021

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bridgeman, Hinchey, Naughton a/ac Mia Rees |

9 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

10 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

11 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod Pwyllgor rhestr hir a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2020 yn gofnod cywir.

12 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n berthnasol i ymgeisydd yn dod yn gyflogai'r Awdurdod; a

Pharagraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

13 : PENODI CYFARWYDDWR GWASANAETHAU PLANT

Ailymgynnull y Pwyllgor Penodi ar gyfer swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Ganolfan Asesu.

Cyflwynodd Nick Clark, yr Asesydd Arweiniol Allanol, y canfyddiadau ar gyfer pob un o'r 5 ymgeisydd yn dilyn ymarferion y ganolfan asesu, a'r sgorau yn erbyn y cymwyseddau ymddygiadol ar gyfer y rôl.  Ystyriodd y pwyllgor, ar sail y meini prawf hanfodol, y canlyniadau asesu a ffurflenni cais gwreiddiol yr ymgeiswyr, ba ymgeiswyr y dylid eu gwahodd i gyfweliad ffurfiol.

PENDERFYNWYD -

1. Bod ymgeisydd 15082 yn cael ei wahodd i gyfweliad.

2. Bod yr ymgeiswyr yn cael gwybod am y pwnc cyflwyno a ddewiswyd ac y dyrennir uchafswm o 10 munud ar gyfer y cyflwyniad; a

3. Bod y cwestiynau a ddewiswyd yn cael eu cwblhau ar gyfer y Pwyllgor cyfweld

14 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen ystyried yr eitem hon.

15 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD – Y bydd y Pwyllgor Penodi fel Panel Cyfweld yn ymgynnull am 9.30am ddydd Mawrth 26 Ionawr 2021, o bell.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.15 am